Canolfan Iechyd Plas Menai
Ffordd Penmaenmawr
LLANFAIRFECHAN
Conwy
LL33 0PE

Ffôn: 01248 680021
Ffacs: 01248 681711

Ein Cyfeirnod:
PMS/NOTICE/VTS/1801
Eich Cyfeirnod:
Amherthnasol

Dyddiad:
22 Mehefin 2018

Canolfan Iechyd
Plas Menai
Health Centre

Cyflwyno Cynllun Cludiant Gwirfoddol Canolfan Iechyd Plas Menai

Cyflwyniad

Mae'n bleser gan y Partneriaid sy'n Feddygon Teulu yng Nghanolfan Iechyd Plas Menai gyhoeddi eu bod yn cyflwyno Cynllun Cludiant Gwirfoddol, er mwyn cefnogi'r gymuned cleifion yn sgil cau Meddygfa Llys Meddyg ym Mhenmaenmawr. Cydnabuwyd y byddai cau'r feddygfa yn cael effaith benodol ar rai cleifion fyddai'n ei chael hi'n anodd iawn teithio i'r Ganolfan Iechyd yn Llanfairfechan. I leihau'r effaith hon, mae'r Partneriaid sy'n Feddygon Teulu yn lansio Cynllun Cludiant Gwirfoddol. Bydd y cynllun, er nad yw er elw, yn codi ffi fach ar gleifion sy'n dewis ei ddefnyddio ac sy'n cael eu derbyn i'r cynllun. Bydd yr arian hwn yn helpu i gynnal y cynllun a'i ddatblygu.

Felly beth yn union yw Cynllun Cludiant Gwirfoddol Plas Menai?

Bwriad Canolfan Iechyd Plas Menai yw datblygu cynllun cludiant fydd yn helpu'r cleifion hynny sy'n ei chael hi'n anodd iawn mynd i'r Ganolfan Iechyd yn Llanfairfechan. Mae'r cynllun wedi'i reoli gan y ganolfan iechyd ond caiff ei redeg gan griw o yrwyr gwirfoddol sydd wedi cael yr archwiliadau priodol - hebddyn nhw fyddai'r cynllun ddim yn bodoli!

Sut mae'r cynllun yn gweithio?

Bydd angen i'r cleifion sydd am gael eu hystyried ar gyfer y cynllun gofrestru'n benodol â'r cynllun. Gallwch wneud hyn mewn sawl ffordd:

- ✓ Gallwch gofrestru drwy eich Meddyg Teulu - os ydych chi'n awyddus i gael eich ystyried, gofynnwch i'ch Meddyg Teulu am ffurflen gofrestru y tro nesaf y byddwch chi'n ei weld;
- ✓ Drwy weithiwr iechyd proffesiynol neu wasanaethau cymdeithasol - os ydych chi dan ofal gweithiwr iechyd proffesiynol [fel nyrs ardal neu ymwelydd iechyd] neu wasanaethau cymdeithasol ar hyn o bryd, gofynnwch iddyn nhw a fyddent yn cefnogi eich cofrestriad ac yna llenwch y ffurflenni cofrestru sydd ar ein gwefan **www.plasmenaihealthcentre.co.uk**
- ✓ Drwy aelod o'r teulu neu ffrind [ar yr amod bod y claf yn gwybod am hyn ac yn cydsynio i hyn] - i wneud hyn, gallwch ofyn i aelod o'ch teulu neu ffrind lenwi'r ffurflen gofrestru a'i chyflwyno i'r ganolfan iechyd ar eich rhan;
- ✓ Yn bersonol - gallwch lenwi'r ffurflen gofrestru eich hun a'i chyflwyno i'r ganolfan iechyd.

Beth nesaf?

Unwaith y byddwn ni'n cael Cais i Gofrestru â'r Cynllun Cludiant Gwirfoddol byddwn yn asesu'r rhesymau dros eich cais. Os byddwn ni'n credu bod y rhesymau'n bodloni nodau'r cynllun, byddwn yn cysylltu â chi ac yn eich rhoi ar y gofrestr. Os na fydd y ganolfan iechyd [Partneriaid sy'n Feddygon Teulu] yn credu bod eich rhesymau'n briodol ar gyfer y cynllun, yna byddwn yn cysylltu â chi i roi gwybod i chi am y penderfyniad. Gallwch apelio'r penderfyniad a bydd manylion sut mae mynd ati i apelio ar gael ar ein gwefan yn **www.plasmenaihealthcentre.co.uk**

Felly pryd bydd y Cynllun Cludiant Gwirfoddol yn dechrau?

Mae'r cynllun yn bwriadu dechrau ddydd Llun, 9 Gorffennaf 2018. Rydym yn bwriadu cynnal clinigau penodol ar gyfer y cleifion hynny sydd wedi cofrestru i ddefnyddio'r cynllun. Caiff y rhain eu cynnal bob prynhawn Mawrth ac Iau.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i:

www.plasmenaihealthcentre.co.uk